Datganiad newyddion

6 Mai 2009

Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Caiff ysgolion sy'n achosi pryder eu cefnogi'n dda gan awdurdodau lleol ond mae angen gwneud mwy

Mae Awdurdodau Lleol wedi gwella eu cymorth ar gyfer ysgolion y nodwyd gan Estyn eu bod yn achosi pryder, ond mae angen gwella mwy, yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd heddiw gan Estyn.

Mae angen i Wasanaethau Addysg Awdurdodau Lleol (GAALlau) fod yn fwy trylwyr wrth ymyrryd a herio ysgolion pan fyddant yn tanberfformio cyn iddynt gael eu rhoi mewn categori pryder gan Estyn.

Dywed y Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant, Dr Bill Maxwell, "Rydym ni'n gwybod yn awr bod y rhan fwyaf o Wasanaethau Addysg Awdurdodau Lleol yn cefnogi ysgolion yn dda iawn pan fydd Estyn yn nodi eu bod yn achosi pryder, ond yr her go iawn iddyn nhw yw defnyddio'r ystod lawn o bwerau er mwyn gwella'r ysgolion hyn cyn iddyn nhw gael eu harolygu gan Estyn".

Er bod GAALlau yn defnyddio eu categorïau risg eu hunain i bennu pa mor dda y mae ysgol yn perfformio, canfu arolygwyr fod ysgolion weithiau yn ansicr ynglŷn â pha gategori y maent ynddo a pha gymorth y byddant yn ei gael. Nid yw GAALlau yn mynd i'r afael ag arweinyddiaeth a rheolaeth yn ddigon cadarn bob amser er mwyn helpu'r ysgol i wella.

Dywed yr adroddiad nad yw GAALlau wedi canolbwyntio eu hymdrechion ar ysgolion sy'n achosi pryder yn y gorffennol ond eu bod wedi helpu pob ysgol yn gyfartal, hyd yn oed y

rheiny sy'n perfformio'n dda. Erbyn hyn, mae GAALlau yn targedu adnoddau at ysgolion sydd angen y mwyaf o gymorth ond nad ydynt bob amser yn gallu sicrhau digon o welliant i'w hatal rhag mynd i gategori ar ôl cael eu harolygu gan Estyn.

Dywed Estyn mewn rhai achosion nad yw llywodraethwyr yn cael gwybod yn llawn bod yr ysgol yn tanberfformio. Mae angen mwy o gymorth gan GAALlau ar ysgolion ar sut gallant weithredu pan fydd ysgolion yn tanberfformio ac mae angen iddynt fod yn barod i weithredu fel hyn pan fo'n briodol.

Mae Estyn yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi arweiniad a hyfforddiant i GAALlau a chyrff llywodraethol fel eu bod yn glir ynglŷn â beth yw eu pwerau ymyriad statudol a sut dylent eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol.

-DIWEDD-

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata ar 02920 446464 neu anfonwch e-bost at cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk

Nodiadau i olygyddion

Ynglŷn â'r adroddiad

- Comisiynwyd adroddiad Estyn 'Awdurdodau lleol ac ysgolion sy'n achosi pryder' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae ar gael yn llawn yn www.estyn.gov.uk

  Mae sail y dystiolaeth yn cynnwys:

  - arolygiadau o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) y nodwyd bod angen mesurau arbennig arnynt, bod ganddynt wendidau difrifol neu fod angen eu gwella'n sylweddol rhwng Medi 2004 a Gorffennaf 2008;
  - arolygiadau o naw gwasanaeth gwella ysgolion mewn awdurdodau lleol rhwng Medi 2006 a Gorffennaf 2008;
  - ymweliadau monitro ag ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig y nodwyd bod angen mesurau arbennig arnynt neu fod angen eu gwella'n sylweddol rhwng Medi 2006 a Gorffennaf 2008;

- archwilio cynlluniau gweithredu ac UCDau y nodwyd bod angen mesurau arbennig arnynt neu fod angen eu gwella'n sylweddol rhwng Medi 2007 a Gorffennaf 2008 a datganiadau gweithredu gan yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am y sefydliadau hyn;

- dogfennaeth o bob awdurdod lleol yng Nghymru gan gynnwys polisïau a chytundebau partneriaeth drafft;

- ymweliadau â saith awdurdod lleol a chyfweliadau ffôn gydag uwch swyddogion mewn chwe awdurdod lleol arall;

- cyfweliadau ffôn gyda chynrychiolwyr o esgobaethau'r Eglwys yng Nghymru ac esgobaethau Catholig Rhufeinig; a

- chyfweliadau gyda phenaethiaid a chadeiryddion cyrff llywodraethol mewn 12 ysgol, gan gynnwys ysgolion sydd ar hyn o bryd mewn categori pryder, ysgolion a dynnwyd o'r categorïau hyn yn ddiweddar ac ysgolion y nodwyd gan awdurdodau lleol eu bod yn tanberfformio.

Ynglŷn ag Estyn

Estyn yw'r Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Ein nod yw sicrhau rhagoriaeth i bawb mewn dysgu yng Nghymru. Gwnawn hyn trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chyngor annibynnol, o ansawdd uchel.

Ein gweledigaeth yw cael ein cydnabod trwy arbenigedd ein staff fel llais awdurdodol ar ddysgu yng Nghymru.

Rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru, ond yn cael ein hariannu ganddi (o dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Leol i Gymru 1998).

I gael rhagor o wybodaeth, trowch at ein gwefan www.estyn.gov.uk